

Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

Dyddiad:

Dydd Iau, 5 Mawrth 2015

Amser:

09.00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Bethan Davies

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru

Agenda

- 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:00)**
- 2 Papurau i'w nodi (09:00–09:05) (Tudalennau 1 – 9)**

(Yn unol â Rheol Sefydlog 17.42, mae'r Pwyllgor am benderfynu cwrdd yn breifat ar gyfer eitemau 3, 4, 5 a 6)
- 3 Ystyriaeth Gychwynnol o'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) (09:05–09:15)**
(Tudalennau 10 – 16)
- 4 Ystyried Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chynllun Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2015–2016 (09:15–09:25) (Tudalennau 17 – 18)**
- 5 Perfformiad Corfforaethol Comisiwn y Cynulliad – Ebrill–Rhagfyr 2014 (09:25–09:35) (Tudalennau 19 – 41)**

6 Treth Trafodiadau Tir: Papur briffio ffeithiol gan Lywodraeth Cymru (09:35–10:15) (Tudalennau 42 – 47)

(Egwyl: 10:15–10:30)

7 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Sesiwn dystiolaeth 5 (10:30–11:30) (Tudalennau 48 – 66)

Nicholas Paines CF – Comisiynydd y Gyfraith sydd â chyfrifoldeb dros Gyfraith Gyhoeddus

Beth Gascoyne – Comisiwn y Gyfraith

David Connolly – Comisiwn y Gyfraith

[Adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith ar yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus](#)

8 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Sesiwn dystiolaeth 6 (11:30–12:15) (Tudalennau 67 – 71)

Tom Frawley – Ombwdsmon Gogledd Iwerddon

[Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cwynion ac Ombwdsmon Cynulliad Gogledd Iwerddon ar gyfer 2013–2014](#)

9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol: (12:15)

Eitemau 10

10 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Trafod y dystiolaeth (12:15–12:30) (Tudalennau 72 – 77)

Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd**

Dyddiad: **Dydd Mercher, 25 Chwefror 2015**

Amser: **09.00 – 12.06**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv) yn:
<http://senedd.tv/cy/2651>

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

Jocelyn Davies AC (Cadeirydd)
Peter Black AC
Christine Chapman AC
Mike Hedges AC
Alun Ffred Jones AC
Ann Jones AC
Julie Morgan AC
Nick Ramsay AC
Kirsty Williams AC

Tystion:

Jane Hutt AC, Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Gawain Evans, Llywodraeth Cymru
Matt Denham Jones, Llywodraeth Cymru
Lyn Cadwallader, Un Llais Cymru
Daniel Hurford, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Staff y Pwyllgor:

Bethan Davies (Clerc)
Leanne Hatcher (Ail Clerc)
Tanwen Summers (Dirprwy Clerc)
Martin Jennings (Ymchwilydd)
Gareth David Thomas (Ymchwilydd)
Joanest Varney-Jackson (Cyngorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau. Roedd Kirsty Williams yn dirprwyo ar ran Peter Black am ran o'r cyfarfod.

2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

4 Arferion Gorau o ran y Gyllideb: Ystyried yr Adroddiad Drafft

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar Arferion Gorau o ran y Gyllideb Rhan 2, a chytunwyd ar nifer fach o newidiadau.

5 Penodi Aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar benodiad Lindsay Foyster fel Aelod anweithredol ar Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru o dan Reol Sefydlog 18.10(v).

6 Ystyriaeth gychwynnol o'r Bil Rhenti Cartrefi (Cymru)

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor oblygiadau ariannol y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru).

7 Amcangyfrif Atodol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2014–15

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor Amcangyfrif Atodol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2014–15.

8 Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014–15

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor Gyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014–15.

9 Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014–15

9.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Gawain Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr Rheolaethau Ariannol, Llywodraeth Cymru a Matt Denham-Jones, Pennaeth Rheoli ac Adrodd Cyllidebol, Llywodraeth Cymru.

9.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r canlynol:

- Cadarnhad os yw'r holl gynlluniau tair blynedd a gyflwynwyd gan fyrddau iechyd wedi cael eu cytuno.
- Darparu gwybodaeth am y diogelwch a gynigir i'r gyllideb llywodraeth leol.

10 Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014–15: Trafod y dystiolaeth

10.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

11 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Sesiwn dystiolaeth 4

11.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Daniel Hurford, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Lyn Cadwallader, Cyfarwyddwr, Un Llais Cymru ar gyfer ei ymchwiliad.

11.2 Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu gwybodaeth am y ffyrdd y mae awdurdodau lleol yn derbyn cwynion.

12 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – trafod y dystiolaeth

12.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

Comisiynydd Plant Cymru Children's Commissioner for Wales

Keith Towler

Jocelyn Davies AM (Chair)
National Assembly for Wales Finance Committee
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

19 February 2015

Dear Chair

Inquiry into the Consideration of Powers: Public Services Ombudsman for Wales

Thank you for your letter dated 9 February. Please find below our response to your specific questions. For your information, we do intend on responding to the consultation, a copy of which we'll share with you in due course.

- **Could 'own-initiative' investigations by the Ombudsman conflict with the role of independent commissioners?**

I am broadly in favour of supporting 'own initiative' investigations by the Ombudsman. However, I would wish to reinforce the need for the Ombudsman to consult with the Children's Commissioner for Wales in relation to any investigation involving a child or young person, as outlined in the current Memorandum of Understanding (MoU) between both institutions. This MoU has been established to protect the institutions' independence and I would wish to ensure that 'own initiative' investigations by the Ombudsman do not adversely impact on the scope and remit of the Children's Commissioner for Wales.

This perhaps offers an opportunity to firm up arrangements between ourselves and the Ombudsman in legislation – currently outlined in the MoU – as well as our working relationship with other similar institutions in Wales.

- **Is there a need for a co-ordination role between independent commissioners, the Ombudsman and the Auditor General for Wales to help their investigations and recommendations to improve public services?**

I already work closely with the Older Person's Commissioner, Welsh Language Commissioner and the Public Services Ombudsman for Wales and have established a Memorandum of Understanding on joint work and the sharing of information. Also established are Memoranda of Understanding with Welsh Government, Care Council for Wales and CAF/CASS Cymru. I meet with the other independent commissioners and the Public Services Ombudsman for Wales on a quarterly basis. I also have meetings with the Auditor General for Wales.

Cont/d...

Page 2

It would be useful to explore further what is meant by a 'coordination role'.

- **Would the proposed reforms of the Ombudsman's role be better carried out in advance of wider public sector reforms, or after?**

We do not believe that the proposed public sector reforms have a bearing on the Public Services Ombudsman's ability to look into complaints about public services and independent care providers in Wales, although regard must be given to the financial constraints of the public sector when considering increasing the resources of the Ombudsman.

Your Inquiry into the consideration of powers of the Public Services Ombudsman for Wales coincides with my calls to strengthen the role and remit of the Children's Commissioner for Wales, discussions which I'm sure my successor and the team would be happy to pursue with you at an opportune time.

I wish you well with the Inquiry.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink that reads "Keith Towler". The signature is written in a cursive style and is positioned above a horizontal line that extends to the right.

Keith Towler
Children's Commissioner for Wales

24 February 2015

Jocelyn Davies AM
Chair
Finance Committee
National Assembly for Wales

Dear Chair,

At the evidence session on 4 February 2015, I agreed to provide some additional information.

I enclose a brief paper providing some background on the type and range of press coverage that we receive.

I also promised to provide some statistics on complaints handling that have come directly from the new complaints handling procedures.

The complaints handling procedure developed by SPSO requires all organisations to publish publicly an annual complaints report. This report must include some key indicators as well as demonstrating how they have learned from complaints to improve services.

These reports were published in the local authority sector for the first time about 2013/14. We recently undertook a quick analysis of the data available from all the reports issued by Scotland's 32 local authorities. I share below some of the figures that have become available as a result. As I explained, I do not see it as the role of this office to act as a regulator for each sector. We undertook this work because it was the first year and we wanted to understand how the reporting requirements were working. I am extremely pleased that the network of local authority complaints handlers themselves wish to look at this in more detail and will be undertaking further analysis.


While it is great progress to have such information available for the first time, I need to explain that, because this is the first time such data has been available the numbers should be treated with some caution. First, this is a result of a quick in-house analysis by my complaints standards team and has not gone through the formal cleansing and processing of data that official statistics would undergo; secondly, we have seen some significant variations that may be explained by differences in recording and how data is presented rather than differences in complaints handling. We anticipate that, over the next few years, the work of the

network will even out this variation and mean that, for the first time, reliable benchmarking data will be available to local authorities. With those caveats in mind, the key findings from our analysis of the 2013/2014 local authority complaints reports are:

- Total number of complaints received 62,071
- Percentage closed at stage 1 (five day early resolution stage) 85%
- Percentage closed at stage 2 (20 day investigation stage) 15%
- Complaints upheld/partially upheld at stage 1 = 25,268 (51%)
- Complaints upheld/partially upheld at stage 2 = 4797 (52%)
- Average time to respond to complaints at stage 1 = 5 working days
- Average time to respond to complaints at stage 2 = 17 working days.
- Percentage of complaints at stage 1 closed within 5 working days (as a percentage of total number of stage 1 complaints) varies across Local Authorities from 53% to 95%.
- Percentage of complaints closed at stage 2 within 2 working days (as a percentage of stage 2 complaints) varies across Local Authorities from 33% to 98%.

I hope this additional information is helpful.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink that reads "James B Martin". The signature is written in a cursive style with a large, looped initial 'J'.

Jim Martin
Ombudsman

SPSO Press Coverage

Press coverage is analysed as the press are an important facilitator of information about SPSO. The statistics below apply to the period January 2013 – December 2013 (the last full-year media evaluation available).

- There was a record volume of coverage identified in 2013 (a total of 381 items: 243 newspaper, 125 web, 13 broadcast). This compares with 206 newspaper, 64 web and no broadcast items in 2012.
- This was generated from coverage in 59 different publications, spanning local and national press; daily newspapers and specialist publications.
- The split between national and local coverage was 49% and 51%, reversing the trends observed in previous years. There was an increase in the proportion of national press items (49%, up from 42% in 2012).
- 53% of coverage was generated by the monthly compendium of investigation and decision reports. As with previous years, this was the highest generator of coverage.
- The topics that generated the highest number of items were about the NHS (204 items – 54%).

Each month, we expect to see a large proportion of press articles to be focused on cases in our monthly compendium of investigation and decision reports, but we also monitor for activity relating to the Complaints Standards Authority, external political events that impact on the work of the Ombudsman, and other mentions of the SPSO.

By way of example, here are some links to recent press cuttings, arranged by category:

Content generated from the monthly compendium of investigation and decision reports:

19 February 2015 “Trainee Aberdeen doctor failed to spot fatal tear near patient’s heart”, <https://www.pressandjournal.co.uk/fp/news/aberdeen/495718/trainee-aberdeen-doctor-failed-spot-fatal-tear-near-patients-heart/>

19 February 2015 “NHS Tayside ordered to apologise for PRI’s treatment of dementia patient” <http://www.thecourier.co.uk/news/local/perth-kinross/nhs-tayside-ordered-to-apologise-for-pri-s-treatment-of-dementia-patient-1.840930>

Content related to complaints handling / Complaints Standards Authority / Model CHP:

22 Jan 2015, “Lessons learned when it comes to school bullying”, The Southern Reporter <http://www.thesouthernreporter.co.uk/news/local-headlines/lessons-learned-when-it-comes-to-school-bullying-1-3668408>

Content not generated by monthly investigation / decision reports:

A complainant saying that they may bring a case to the SPSO:

16 February 2015, "Parents pledge to fight on for more space for school", Evening Times <http://www.eveningtimes.co.uk/news/parents-vow-to-fight-on-for-space-for-their-school-197393n.118465889>

A complainant going to the press about an issue and mentioning that they have already brought their case to the SPSO:

28 December 2014: "Your country has killed me' – final damning attack by man whose cancer was missed 32 times" <http://www.sundaypost.com/that-s-life/your-health/fighting-chance/your-country-has-killed-me-final-damning-attack-by-man-whose-cancer-was-missed-32-times-1.757488>

Relating to political events / consultations and legislation that mentions the SPSO:

31 December 2014, Holyrood Magazine, State of the Nation, Michael McMahon MSP [on legislation relating to Scottish Welfare Fund] <https://www.holyrood.com/articles/inside-track/state-nation>

Accountancy Live, 28 Jan 2015, "Revenue Scotland consults on taxpayer charter" <https://www.accountancylive.com/revenue-scotland-consults-taxpayer-charter>

Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
E-bost / Email: info@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Ms Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Dyddiad: 19 Chwefror 2015
Ein cyf: HVT/2271/fgb
Tudalen: 1 o 2

Annwyl Jocelyn

YMCHWILIAD I YSTYRIED PWERAU: OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 26 Ionawr 2015.

Mae fy marn am y materion a godir gennych fel a ganlyn. Mae f'atebion i'ch cwestiynau ymgynghori cyffredinol (Atodiad A) i'w gweld yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

- (i) *O ystyried fy rôl o ran goruchwyllo Cronfa Gyfunol Cymru, a fyddai unrhyw faterion ariannol pwysig yn codi o gynigion yr Ombwdsmon pe bai Bil yn cael ei gyflwyno, yn enwedig o ran Rheol Sefydlog 26.6 (viii)?*

O ran Rheol Sefydlog 26.6 (viii), nid wyf yn credu y dylai fod yn angenrheidiol nac yn debygol i gynigion yr Ombwdsmon beri iddi fod yn ofynnol gwneud darpariaeth i godi tâl yn uniongyrchol ar y Gronfa. Fel y gwyddoch, mae'r darpariaethau codi tâl uniongyrchol yn sicrhau bod modd talu arian heb fod angen cymeradwyaeth bellach gan y Cynulliad (ar ffurf cynigion cyllidebol), ac maent yn briodol i roi sicrwydd o ran talu, er enghraifft am indemniadau a chyflogau swyddi o bwys cyfansoddiadol (fel swydd y Llywydd). Nid yw'n ymddangos bod cynigion yr Ombwdsmon yn gysylltiedig â mater o'r fath. "Awdurdod Safonau Cwynion" yw un o'r pum maes a gynigiwyd ganddo, ond deallaf mai brand ar gyfer y gwaith ar y polisi cwyno enghreifftiol arfaethedig yw hwn yn hytrach na chynnig i greu corff cyhoeddus newydd y gallai fod yn ofynnol gwneud darpariaeth ar ei gyfer o ran taliadau uniongyrchol.

Nodir fy marn am oblygiadau ariannol ehangach cynigion yr Ombwdsmon yn f'atebion i'ch cwestiynau ymgynghori yn Atodiad A (gweler yr Atodiad i'r llythyr hwn).

- (ii) *A oes gennyf unrhyw bryderon y gallai ymchwiliadau 'ar ei liwt ei hun' gan yr Ombwdsmon wrthdaro ag ymchwiliadau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol? Sut y gellir rheoli'r risg hon?*

Rwy'n credu ei bod yn bosibl y gallent orgyffwrdd â'm hastudiaethau gwerth am arian, ond nid wyf yn credu y byddai'n risg fawr. Ymhellach, rwy'n credu y byddai modd mynd ati'n weddol rhwydd i reoli'r risg yn effeithiol. Rwy'n sicr y byddwn innau a'r Ombwdsmon

yn parhau i drafod ein blaenraglenni gwaith pa un bynnag. I sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth, fodd bynnag, byddai'n briodol cynnwys darpariaeth yn y ddeddfwriaeth sy'n peri iddi fod yn ofynnol i'r Ombwdsmon a'r Archwilydd Cyffredinol ystyried eu safbwyntiau i gilydd cyn iddynt arfer y swyddogaethau perthnasol a chydweithio â'i gilydd cyhyd ag y bo'n angenrheidiol, yn eu tyb nhw, i arfer y swyddogaethau hynny'n effeithiol.

(iii) *A oes angen rôl gydgysylltu rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru, yr Ombwdsmon a'r comisiynwyr annibynnol i hwyluso'u hymchwiliadau a'u hargymhellion i wella gwasanaethau cyhoeddus?*

Rwy'n credu y byddai'r gofynion yr wyf yn eu hawgrymu wrth ateb cwestiwn (ii) yn cydgysylltu'r swyddogaethau'n briodol. Nid wyf yn credu y dylai fod angen unrhyw ddarpariaeth arall i gydgysylltu'r swyddogaethau, fel unigolyn penodedig sy'n ysgwyddo rôl gydgysylltu benodol.

(iv) *A fyddai'n well cyflawni'r diwygiadau arfaethedig i rôl yr Ombwdsmon cyn diwygio'r sector cyhoeddus ehangach, neu ar ôl hynny?*

At ei gilydd, nid wyf yn credu bod unrhyw faterion o bwys o ran amseriad y diwygiadau, y naill ffordd na'r llall. Fodd bynnag, rwy'n credu y byddai ychydig yn fwy darbodus ac effeithlon ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus fabwysiadu polisïau cwyno enghreifftiol pan fyddant yn llunio polisïau cwyno ar gyfer y cyrff wedi'u huno, yn hytrach na chyflwyno gofynion o'r fath cyn neu ar ôl i'r cyrff ymuno â'i gilydd. O wneud hynny, dylai helpu i sicrhau nad oes rhaid i'r cyrff wneud dwy set o newidiadau i'w gweithdrefnau cwyno.

Byddwn yn fodlon rhoi eglurhad pellach i'r Pwyllgor pe bai hynny o gymorth iddo.

Yn gywir



HUW VAUGHAN THOMAS
ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Amg: Atodiad A: Ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori yn yr Atodiad

YMATEBION I'R CWESTIYNAU YMGYNGHORI YN YR ATODIAD

1. *Beth yw eich barn ar effeithiolrwydd Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005?*

Ar sail ein gwaith o fonitro'r materion sy'n codi o archwilio'r cyfrifon a'n gwaith monitro ehangach at ddibenion cynllunio astudiaethau gwerth am arian, nid oes gennyf unrhyw bryderon penodol ynghylch diffyg effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth gyfredol.

Ymchwiliadau 'ar ei liwt ei hun'

2. *Ar hyn o bryd, dim ond os caiff cwyn ei gwneud iddo y caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i'r mater. Beth yw eich barn ar bwerau ymchwilio 'ar ei liwt ei hun', a fyddai'n galluogi'r Ombwdsmon i gychwyn ei ymchwiliadau ei hun heb orfod derbyn cwyn am fater yn gyntaf. Eglurwch eich ateb.*

Rwy'n credu y byddai ymchwiliadau „ar ei liwt ei hun“ yn sicrhau bod modd mynd i'r afael â phroblemau systemig ehangach mewn modd cydlynol. Yn ogystal, rwy'n credu y dylai pŵer o'r fath sicrhau bod modd ymchwilio i faterion sy'n amlwg yn peri problem er nad oes cwynion wedi dod i law. Gallai hyn fod yn berthnasol, er enghraifft, i broblemau systemig sy'n effeithio ar grwpiau penodol sy'n dueddol o fod yn gyndyn o gwyno neu sy'n methu â gwneud hynny.

Rwy'n credu y dylid defnyddio pŵer o'r fath i gyflawni ymchwiliadau o'r fath yn gynnwl, ond rwy'n credu ei bod yn debygol iawn y bydd y cyfyngiadau o ran adnoddau a'r camau a gymerir gan y Cynulliad i gadw llygad ar yr adnoddau yn sicrhau na chaiff y pŵer ei ordefnyddio.

3. *A oes gennych unrhyw bryderon y gallai pwerau ymchwilio 'ar ei liwt ei hun' arwain at orgyffwrdd cyfrifoldebau'r Ombwdsmon â chyfrifoldebau sefydliadau eraill? Sut y gellir rheoli hyn?*

Rwy'n credu ei bod yn bosibl y gallai'r ymchwiliadau hyn orgyffwrdd â'm hastudiaethau gwerth am arian, ac o bosibl ag ymchwiliadau Gweinidogion Cymru (AGIC ac AGGCC) ac Estyn. Serch hynny, rwy'n credu y byddai modd mynd ati'n weddol rhwydd i reoli'r risg yn effeithiol. Fel y dywedais yn fy llythyr, rwy'n sicr y byddwn innau a'r Ombwdsmon yn parhau i drafod ein blaenraglenni gwaith pa un bynnag. I sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth, fodd bynnag, byddai'n briodol cynnwys darpariaeth yn y ddeddfwriaeth sy'n peri iddi fod yn ofynnol i'r Ombwdsmon a'r Archwilydd Cyffredinol ystyried eu safbwyntiau'i gilydd cyn iddynt arfer y swyddogaethau perthnasol a chydweithio â'i gilydd cyhyd ag y bo'n angenrheidiol, yn eu tyb nhw, i arfer y swyddogaethau hynny'n effeithiol.

4. *A oes gennych farn ar y buddion a'r costau ariannol tebygol yn sgil rhoi pwerau ymchwilio 'ar ei liwt ei hun' i'r Ombwdsmon?*

Mae'r amcangyfrif o'r costau a geir ym mhapur yr Ombwdsmon yn realistig o ran defnyddio'r pwerau i gyflawni ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn gynnwl – un neu ddau ymchwiliad y flwyddyn, dyweder. O ran y buddion, nid yw'n bosibl rhagfynegi'r buddion

ariannol sy'n debygol o ddeillio o bwerau o'r fath. O ddefnyddio pwerau o'r fath yn dda, byddwn yn gobeithio y byddai'n arwain at leihau'r lefelau camweinyddu gan sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chynyddu bodlonrwydd y cyhoedd (a lleihau niwed a gofid i unigolion). Fodd bynnag, mae'n anodd iawn mesur buddion o'r fath, heb sôn am eu rhagfynegi.

Cwynion ar lafar

5. *Ar hyn o bryd, dim ond cwynion ysgrifenedig y gall yr Ombwdsmon eu derbyn. Beth yw eich barn ar yr Ombwdsmon yn gallu derbyn cwynion ar lafar? Eglurwch eich ateb.*

Yn ôl yr hyn a ddeallaf i, nid dim ond cwynion ysgrifenedig y gall yr Ombwdsmon eu derbyn mewn gwirionedd. Mae adran 2(4) o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn rhoi disgrisiwn i'r Ombwdsmon ymchwilio i gwynion a wneir ar lafar, ac rwy'n casglu bod yr Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn deall bod rhaid i staff swyddfa'r Ombwdsmon dreulio amser yn cofnodi cwynion a wneir ar lafar ac yn cadarnhau bod yr achwynydd am i'r Ombwdsmon barhau â'r ymchwiliad. Nid wyf yn sicr beth yw'r ateb mwyaf priodol i'r broblem honno; nid wyf yn sicr y byddai mynd ati i ddileu'r gofyniad yn adran 5 o Ddeddf 2005 am i gwynion gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig, ar ei ben ei hun, yn gwneud llawer o wahaniaeth, o gofio'r disgrisiwn i ymchwilio i gwynion nad ydynt yn bodloni gofynion adran 5. Serch hynny, rwy'n amau y dylai darpariaeth newydd sy'n caniatáu i'r Ombwdsmon gyflawni ymchwiliadau ar ei liwt ei hun ei helpu i fynd i'r afael â materion difrifol sy'n cael eu codi ar lafar, ond nad ydynt yn cael eu cadarnhau.

6. *Pa fathau eraill o ohebiaeth ddylai fod yn dderbyniol (e.e. e-bost, ffurflen ar y we, negeseuon testun)?*

Yn ôl yr hyn a ddeallaf i, byddai'r llysoedd yn barnu bod gohebiaeth drwy gyfrwng e-bost, ffurflen ar y we a neges destun yn ohebiaeth ysgrifenedig. Nid wyf yn credu y dylai fod yn angenrheidiol cyflwyno cwyn drwy gyfrwng llythyr ar bapur.

7. *A oes gennyh farn ar fuddion a chostau ariannol y ddarpariaeth hon?*

Oherwydd nad wyf yn sicr sut y byddai darpariaeth benodol ar gyfer cwynion ar lafar yn gweithio, ni allaf fynegi barn am y buddion a'r costau ariannol. Os gellir datrys y broblem o ran staff yn treulio amser yn cofnodi cwynion a wneir ar lafar nad ydynt wedi'u cadarnhau, gall fod rhywfaint o arbedion ariannol oherwydd nad oes rhaid cyflawni gwaith y gellir ei ystyried yn ddiangen. Ond rwy'n credu y bydd unrhyw ateb sy'n ei gwneud yn haws i bobl gyflwyno cwynion ar lafar hefyd yn arwain at gynnydd yn nifer y cwynion, a chynnydd yn y costau hefyd. Fodd bynnag, rwy'n deall y gallai unrhyw gamau i hwyluso'r broses o gyflwyno cwynion ar lafar ac ymchwilio iddynt fod yn wirioneddol fuddiol i bobl sy'n agored i niwed.

Ymdrin â chwynion mewn gwasanaethau cyhoeddus

8. *Ar hyn o bryd, nid oes cysondeb yn y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn ymdrin â chwynion. Mae mabwysiadu'r polisi cwynion enghreifftiol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn wirfoddol. Beth yw eich barn ar yr Ombwdsmon yn paratoui*

*polisi cwynion enghreifftiol y byddai'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ei fabwysiadu?
Eglurwch eich ateb.*

Rwy'n credu bod y datblygiad arfaethedig hwn yn debygol o fod yn fuddiol ar y cyfan. Rwy'n credu bod hyn yn debyg iawn i'r canllawiau clir a roddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth i gyrff cyhoeddus ynghylch y gweithdrefnau adolygu Rhyddid Gwybodaeth. Mae hyn wedi helpu i ddileu rhai arferion di-fudd mewn rhai cyrff. O beri iddi fod yn ofynnol mabwysiadu polisiau enghreifftiol, dylai sicrhau bod modd i arferion da ac effeithlon ennill eu plwyf ar draws y cyrff cyhoeddus o ran ymdrin â chwynion. Dylai hyn arwain at wella effeithiolrwydd (ymdrin â chwynion yn well).

Gall fod yn ddefnyddiol darparu i'r Ombwdsmon ganiatáu i gorff wyro oddi wrth bolisi enghreifftiol, er enghraifft, os nad yw gofynion gweithredol y corff yn cydweddu'n dda â'r polisi enghreifftiol. Yn ogystal, gall fod angen eithrio materion penodol o'r polisi enghreifftiol gan fod rheoliadau eraill yn berthnasol iddynt, er enghraifft gweithdrefnau adolygu Rhyddid Gwybodaeth.

9. *A oes gennych farn ar fuddion a chostau ariannol y ddarpariaeth hon?*

Er nad yw'r arbedion net cyffredinol yn debygol o fod yn fawr ac er y bydd yn anodd eu mesur, yn enwedig lle nad yw'r staff sy'n ymdrin â chwynion yn defnyddio system cofnodi amser, rwy'n credu y dylai'r camau i beri iddi fod yn ofynnol mabwysiadu polisiau enghreifftiol arwain at well darbodaeth, drwy sicrhau, ymhlith pethau eraill, nad oes rhaid i gyrff dreulio amser yn llunio'u polisiau'u hunain na gwario arian ar wneud hynny. Yn yr un modd, gall fod yn bosibl sicrhau rhywfaint o arbedion mewn achosion lle y mae cyrff cyhoeddus yn defnyddio polisiau gwael.

Awdurdodaeth yr Ombwdsmon

10. *Beth yw eich barn gyffredinol ar awdurdodaeth gyfredol yr Ombwdsmon?*

Yn gyffredinol, rwy'n credu bod awdurdodaeth gyfredol yr Ombwdsmon yn briodol.

11. *Ar hyn o bryd, gall yr Ombwdsmon ymchwilio i ofal iechyd preifat sydd wedi'i gomisiynu gan y GIG. Hoffai'r Ombwdsmon ehangu'r awdurdodaeth fel y gall ymchwilio i fater pan fo claf wedi derbyn gofal iechyd preifat (wedi'i ariannu gan y claf ac nid y GIG) ar y cyd â gofal iechyd cyhoeddus. Byddai hyn yn caniatáu i'r broses gwyno ddilyn y dinesydd yn hytrach na'r sector. Beth yw eich barn ar ehangu awdurdodaeth yr Ombwdsmon fel hyn?*

Gallaf weld rhinweddau defnyddio dull sy'n "dilyn y dinesydd" pan fo claf yn cael gofal iechyd preifat ar y cyd â gofal iechyd cyhoeddus. Fodd bynnag, rwy'n credu y gallai fod yn eithaf anodd diffinio cysylltiadau mewn hanesion gofal mewn rhai achosion. Gall fod problemau eraill hefyd o ran diffinio cwrpas y gofal iechyd sy'n rhan o awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Fodd bynnag, mae materion polisi cyhoeddus ehangach ar gael hefyd ac nid wyf yn credu ei bod yn briodol imi roi sylwadau arnynt.

12. *Sut y credwch y dylid ariannu'r gwaith o ymchwilio i gwynion ynghylch gofal iechyd preifat? (Ymhlith y posibiladau mae cyflwyno ardoll, codi tâl fesul achos neu beidio â chodi unrhyw dâl.)*

Materion polisi cyhoeddus yw'r rhain ac mae'n debyg nad yw'n briodol imi roi sylwadau arnynt.

13. *A oes gennych farn ar fuddion a chostau ariannol y ddarpariaeth hon?*

Eto, ni allaf roi sylwadau ar y materion hyn.

Cysylltiadau â'r llysoedd

14. *Beth yw eich barn ar gael gwared ar y gwaharddiad statudol er mwyn caniatáu i'r Ombwdsmon ystyried achos sydd wedi cael ei adolygu gan lys, neu lle mae posibilrwydd y bydd yn cael ei adolygu gan lys, tribiwnlys neu broses arall? (h.y. byddai hyn yn rhoi cyfle i achwynwyr benderfynu pa lwybr sydd fwyaf priodol iddynt.)*

O ystyried y gost ychwanegol bosibl i'r pwrs cyhoeddus, byddwn yn pryderu pe bai'r camau i gael gwared ar y gwaharddiad statudol yn golygu bod achwynwyr nid yn unig yn gallu dewis llwybr unioni (h.y. y naill neu'r llall) ond yn gallu dilyn dau lwybr unioni. Ymhellach, oherwydd nad yw'r gwaharddiad statudol yn gymwys os yw'r Ombwdsmon yn fodlon, o dan amgylchiadau penodol, nad yw'n rhesymol disgwyl i'r unigolyn ddewis y llwybr unioni cywir, nid wyf yn sicr bod dadl gadarn dros gael gwared ar y gwaharddiad statudol o ran dileu rhwystrau sy'n atal pobl sy'n agored i niwed rhag ceisio unioni cam.

15. *Beth yw eich barn ar yr Ombwdsmon yn gallu cyfeirio achosion at y Llysoedd i gael penderfyniad ar bwynt cyfreithiol?*

Mewn egwyddor, mae'n ymddangos ei bod yn synhwyrol cyfeirio achosion at y Llysoedd i gael penderfyniad ar bwynt cyfreithiol, ond mae angen ystyried pwy ddylai ysgwyddo'r gost o gyfeirio achosion o'r fath.

16. *A oes gennych farn ar fuddion a chostau ariannol y ddarpariaeth hon?*

Mae ffratebion i gwestiynau 14 a 15 yn amlinellu fy mhryderon ynghylch costau newidiadau o'r fath.

Materion eraill

17. *A oes gennych unrhyw enghreifftiau penodol lle gallai rhoi'r pwerau ychwanegol arfaethedig i'r Ombwdsmon fod wedi bod yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau casgliad llwyddiannus i fater?*

Nac oes, ond nid yw hynny'n golygu nad wyf yn credu bod manteision i'r cynigion i ganiatáu i'r Ombwdsmon gyflawni ymchwiliadau ar ei liwt ei hun ac i gyflwyno polisi cwyno enghreifftiol.

18. *Mae Atodlen 3 o Ddeddf 2005 yn rhoi rhestr o awdurdodau sydd o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i ymchwilio i gwynion. A fydddech cystal â darparu manylion am unrhyw gyrrff/sefydliadau eraill y dylid eu cynnwys yn y rhestr hon?*

Nid wyf yn gwybod am unrhyw hepgoriadau o bwys.

19. *Pe byddai'r Ombwdsmon yn cael rhagor o bwerau mewn Bil/Deddf newydd, pa bryd y dylid gwerthuso effaith y ddeddfwriaeth hon?*

Byddai'n ddefnyddiol cyflawni adolygiad sylfaenol cyn cychwyn y Ddeddf newydd. Ar ôl hynny, o ystyried yr amserlen ar gyfer cyflawni ymchwiliadau ar ei liwt ei hun a llunio polisi cwyno enghreifftiol, a chaniatáu iddynt gael effaith, byddai'n briodol cyflawni gwerthusiad o leiaf dair i bum mlynedd ar ôl cychwyn y Ddeddf, a hynny os mai bwriad y gwerthusiad yw pwyso a mesur effeithiolrwydd. Fodd bynnag, os mai unig ddiben y gwerthusiad yw asesu pa un a yw'r darpariaethau'n ateb y diben o ran galluogi'r prosesau i gychwyn (sy'n ffocws gweddol gul), byddai modd ei gyflawni flwyddyn neu ddwy ar ôl cychwyn y Ddeddf.

20. *Pa ganlyniadau anfwriadol a allai ddigwydd o ganlyniad i droi'r darpariaethau hyn yn ddeddfwriaeth, a pha gamau y gellid eu cymryd i ymdrin â'r canlyniadau hyn?*

Er imi gyfeirio ato uchod, byddwn yn ailadrodd y gall fod canlyniadau anfwriadol o ran costau ynghlwm wrth y cynnig i wneud darpariaeth benodol ar gyfer cwynion ar lafar. Yn yr un modd, gall fod canlyniadau anfwriadol o ran costau ynghlwm wrth y cynnig i gael gwared ar y gwaharddiad statudol ar faterion y byddai modd i'r Llysoedd eu hystyried.

21. *Pa ffactorau y dylid eu mesur wrth lunio'r dadansoddiad cost a budd ar gyfer y ddeddfwriaeth hon os daw'n gyfraith?*

Byddai angen imi gyflawni gwaith ymchwil estynedig i ateb y cwestiwn hwn yn iawn.

22. *A oes gennyh unrhyw sylwadau ar y materion a ganlyn:*

- *meysydd yn cael eu cynnwys yn awdurdodaeth yr Ombwdsmon dros gyfnod – a ddylid ystyried cynnwys cyrff eraill yn awdurdodaeth yr Ombwdsmon;*

Byddai ystyriaeth o'r fath yn briodol ar gyfer unrhyw sefydliad newydd sy'n darparu gwasanaeth, ond nid, fwy na thebyg, ar gyfer cyrff adolygu newydd (e.e. swydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sydd yn yr arfaeth).

- *argymhellion a chanfyddiadau – a ddylai argymhellion yr Ombwdsmon i gyrrff cyhoeddus fod yn orfodol. Byddai hyn yn golygu na chaiff cyrff benderfynu gwrthod y canfyddiadau;*

Yn fy marn i, gallai argymhellion gorfodol beri anhawster. Gallent beri dryswch o ran atebolrwydd swyddogion gweithredol cyrff cyhoeddus neu leihau eu hatebolrwydd. Mae'n ymddangos bod darpariaethau presennol y Ddeddf o ran adrodd am ddiffyg gweithredu a'i ardystio yn briodol.

- *amddiffyn y teitl – bu gormodedd o gynlluniau yn galw eu hunain yn ombwdsmon, yn aml heb fodloni meini prawf allweddol y cysyniad, fel annibyniaeth ar y rhai mewn awdurdodaeth a bod yn rhydd i'r achwynydd. A ddylai unrhyw un sy'n bwriadu defnyddio'r teitl ombwdsmon gael cymeradwyaeth yr Ombwdsmon;*

Mae'n ymddangos i mi fod hyn yn synhwyrol i ochel rhag camddefnydd. Mae rheoliadau eisoes ar waith i warchod teitlau fel "llywodraeth" ac "archwilydd cyffredinol" (gall fod yn

briodol gofyn iddo gael ei gynnwys yn Atodlen 4 i *Reoliadau Cwmnïau, Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig a Busnesau (Enwau a Datgeliadau Masnachu) 2015*).

- *wynion o ran cod ymddygiad – byddai'n well gan yr Ombwdsmon ganolbwyntio ar yr elfen o'i waith sy'n ymdrin â defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau, yn hytrach na phenderfyniadau awdurdodau lleol a chynghorau tref a chymuned. Er bod gweithdrefnau datrysiad lleol yn bodoli a'u bod wedi cael eu mabwysiadu gan 22 o awdurdodau lleol, ceir amrywiad wrth ymarfer.*

Gallaf weld rhinweddau'r dewis hwnnw, ond rwy'n credu bod angen ymchwilio i gwynion difrifol o ran cod ymddygiad.

23. *A oes gennych farn ar unrhyw agwedd ar ddiwygiadau arfaethedig i'r sector cyhoeddus neu ddiwygiadau yn y dyfodol a fyddai'n effeithio ar rôl yr Ombwdsmon?*

Rwy'n credu ei bod yn debygol y bydd llwyth gwaith achos yr Ombwdsmon yn cynyddu, o leiaf yn y tymor byr i'r tymor canolig, yng ngoleuni'r diwygiadau arfaethedig i'r sector cyhoeddus a'r cyni parhaus – gall fod yn anodd gwahanu effaith y diwygiadau arfaethedig ac effaith y cyni. Yn yr un modd, bydd nifer y cynion i'r cyrff cyhoeddus hefyd yn cynyddu yng ngoleuni'r diwygiadau arfaethedig i'r sector cyhoeddus a'r cyni parhaus. Gallai'r pwynt diwethaf hwn ategu'r ddadl dros ganiatáu i'r Ombwdsmon lunio polisi cwyno enghreifftiol.

24. *A oes gennych unrhyw faterion neu bryderon eraill ynghylch y Ddeddf bresennol, ac a oes unrhyw feysydd eraill y mae angen eu diwygio neu eu diweddarau?*

Ddim ar hyn o bryd.

19 Chwefror 2015



Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

20 Chwefror 2015

Annwyl Jocelyn

Mae'n bleser gennyf anfon Adroddiad diweddaraf Comisiwn y Cynulliad ar Berfformiad Corfforaethol atoch, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2014.

Mae llawer o'r dangosyddion yn parhau i ddangos bod pethau'n gwella o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Os nad yw hynny'n digwydd, mae'r Comisiwn yn cymryd camau i wneud cynnydd.

O ran ymgysylltu â phobl Cymru, dyma y mae'r Comisiwn wedi ei wneud:

- ers mis Medi 2014, ymgysylltu wyneb yn wyneb â bron 6,000 o bobl ifanc ledled Cymru;
- cynnal nifer o weithgareddau cyhoeddus i gynnwys ystod ehangach o bobl yng ngwaith y Cynulliad;
- gwella mynediad at wybodaeth a thrafodion y Cynulliad drwy ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf, fel lansio platfform newydd Senedd.tv ac ymgysylltu â mwy o bobl yn sgil hynny; a
- chyrraedd bron 35,000 o ddilynwyr ar Twitter.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6230

E-bost/Email: Claire.Clancy@cynulliad.cymru

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh


Rydym hefyd wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd o 20% drwy ddefnyddio system cyfieithu peirianyddol newydd. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i ddatblygu a hyrwyddo'r system cyfieithu peirianyddol mewn cydweithrediad â Microsoft.

O ran cynaliadwyedd, er inni fethu ein targed uchelgeisiol o leihau allyriadau ynni 40% o drwch blewyn, rydym wedi gwneud cynnydd ardderchog, gan leihau ein hallyriadau 35% hyd yma. Rydym yn anfon llai a llai o wastraff i safleoedd tirlenwi hefyd. Gan gydnabod y gwaith sydd wedi'i wneud, cafodd ein cyflawniad o ran cynaliadwyedd ar yr ystâd ei gymeradwyo'n annibynnol pan enillodd y Comisiwn y wobwr am sefydliad llywodraethol mwyaf cynaliadwy y sector cyhoeddus yn y gwobrau blynyddol ar gyfer cynaliadwyedd yn y sector cyhoeddus.

Mae'r Cynulliad yn dal i gael cydnabyddiaeth o'r tu allan yng nghyswllt hygyrchedd a chynhwysiant, fel y nodir yng nghyflwyniad yr adroddiad.

Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth.

Yn gywir



Claire Clancy

Prif Weithredwr a Chlerc / Chief Executive and Clerk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Adroddiad Comisiwn y Cynulliad ar Berfformiad Corfforaethol

Ebrill – Rhagfyr 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

Cyfathrebu'r Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ar-lein: www.cynulliad.cymru
E-bost: cysylltu@cynulliad.cymru
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhai nodweddau y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

**Adroddiad Comisiwn y Cynulliad ar
Berfformiad Corfforaethol**

Ebrill – Rhagfyr 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cyflwyniad

Yr enw ar gorff corfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn gwasanaethu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gynorthwyo â'r gwaith o'i wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, a phedwar Aelod Cynulliad wedi'u henwebu gan bob un o'r pedair plaid wleidyddol sy'n cael eu cynrychioli yn y Cynulliad: Peter Black AC; Angela Burns AC; Sandy Mewies AC; a Rhodri Glyn Thomas AC. Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am gyfeiriad strategol gwasanaethau'r Cynulliad ac mae'n atebol i'r Cynulliad. Mae'r gwaith o reoli a chyflawni o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i **Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**.

Mae **Strategaeth Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2011-16** yn amlinellu ein nodau ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad, sef: darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf; ymgysylltu â phobl Cymru; hyrwyddo Cymru; a defnyddio adnoddau'n ddoeth.

Er mwyn cefnogi nodau strategol y Comisiwn, mae gennym bum maes blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi ar gyfer y Cynulliad hwn. Mae'r rhain wedi'u nodi yn **Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2014-16** - cynllun corfforaethol a ddatblygwyd i roi mwy o eglurder a chyfeiriad i staff am ein strategaeth, ein blaenoriaethau ac elfennau amrywiol o lywodraethu.

Adrodd am berfformiad

Dyma'r ail adroddiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-2015, ac mae'n rhoi gwybodaeth am berfformiad corfforaethol y Comisiwn am y cyfnod rhwng mis Ebrill 2014 a mis Rhagfyr 2014, gan gynnwys:

- uchafbwyntiau perfformiad, yn ôl nod strategol;
- crynodeb ar ffurf goleuadau traffig yn nodi'r perfformiad cyffredinol o dan bob un o'n nodau strategol;
- dadansoddiad manylach o'r dangosyddion unigol sy'n rhan o'r crynodeb hwnnw; a
- cymaryddion priodol, o ystod o ffynonellau, pan fo hynny'n bosibl.

Perfformiad o ran darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

Mae canlyniadau arolwg adborth yr Aelodau 2014 yn ategu'r lefel uchel cyson o berfformiad mewn amrywiaeth o ddangosyddion yng nghyswllt y nod hwn, gan ddangos lefelau cyffredinol uchel o foddhad ynghylch y gwasanaethau a ddarperir i Aelodau. Yn benodol, mae'n werth nodi'r cynnydd sylweddol yn y sgôr ar gyfer "gweithio drwy gyfrwng eu dewis iaith" (o 6.2 i 8.9).

Mae gwefan y Cynulliad wedi'i huwchraddio i'w gwneud yn haws ei defnyddio. Mae'r un plattfform technolegol yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu system feddalwedd newydd y Siambr, a gaiff ei lansio yn nhymor yr haf 2015. Lanswyd plattfform newydd Senedd.tv ym mis Medi, gan gynnig mwy o nodweddion i ddefnyddwyr a gwell mynediad at drafodion ar amrywiaeth eang o ddyfeisiau symudol.

Perfformiad o ran ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

Mae niferoedd ymwelwyr yn parhau i godi a chafwyd cynnydd sylweddol o ran ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig ar Twitter, YouTube a Senedd.tv.

Mae'r Cynulliad yn dal i gael cydnabyddiaeth o'r tu allan yng nghyswllt hygyrchedd a chynhwysiant. Yn ogystal â chyrraedd rhestr y Times o'r 50 cyflogwr gorau ar gyfer menywod, cael gwobr Aur Buddsoddwyr mewn Pobl, cael ein cynnwys fel un o 20 cyflogwr gorau'r DU o ran arferion gwaith sy'n ystyriol o deuluoedd a chyrraedd brig rhestr Stonewall o gyflogwyr gorau'r sector cyhoeddus yng Nghymru, rydym wedi cael cydnabyddiaeth gan Action on Hearing Loss, gwobr mynediad y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol a gwnaethom gyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobr Rhagoriaeth mewn Cydraddoldeb Diverse Cymru am ein gwaith asesu effaith ar gydraddoldeb.

Ym mis Hydref 2014, cyrhaeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y rhestr fer yn rownd derfynol Gwobrau Prentisiaethau Cymru eleni.

Perfformiad o ran defnyddio ein hadnoddau yn ddoeth

Mae ein perfformiad o ran y gyllideb yn dangos ein bod yn dal ar y trywydd iawn i sicrhau bod ein sefyllfa ddiwedd y flwyddyn oddi mewn i'r targed ar gyfer tanwariant, sef 1%. Caiff perfformiad ariannol ei fonitro'n ddyfal er mwyn cydbwysu'r gofynion i wario ar weithredu a buddsoddi fel eu bod oddi mewn i'r targed o 1%. At hynny, rydym eisoes wedi cyflawni'r targed gwerth am arian (£500,000 ar gyfer y flwyddyn).

Mae ein cyfraddau absenoldeb salwch wedi gostwng hefyd, ac maent yn dal i fod o fewn y targed <3% ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2014 (2.71% o gymharu â 3.06% yn ystod yr un cyfnod y llynedd).

Cafodd ein cyflawniadau cynaliadwyedd ar gyfer yr ystâd eu cymeradwyo'n annibynnol pan enillodd y Comisiwn y wobwr ar gyfer y sefydliad mwyaf cynaliadwy yn y sector cyhoeddus yn y gwobrau blynyddol ar gyfer cynaliadwyedd yn y sector cyhoeddus. Cyflwynwyd y wobwr i gydnabod cyflawniad nodedig a phwysig wrth gyfrannu at leihau allyriadau carbon y sector cyhoeddus. Mae ein gwaith i leihau allyriadau ynni yn help mawr i sicrhau arbedion cost ar adeg pan fo costau ynni wedi bod yn arbennig o uchel.

Mae canlyniadau'r arolwg adborth diweddaraf gan Aelodau yn dangos lefelau uchel o foddhad â'r gwasanaethau a ddarperir, gyda chynnydd yn y sgorau ar gyfer: lwfansau a staffio, cymorth cyffredinol yn Nhŷ Hywel a'r Senedd, a TGCh. Mae'r canlyniadau hefyd yn helpu i lywio meysydd i'w gwella fel TGCh mewn swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol, y system gwaith achos, swyddfeydd Aelodau yn Nhŷ Hywel ac amodau amgylcheddol yn ein hadeiladau.

Mynediad at wybodaeth









Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi **Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol**, sy'n rhoi trosolwg o berfformiad yn flynyddol, gan gysylltu perfformiad â'r arian a wariwn ar ddarparu gwasanaethau i'r Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi ystod o **wybodaeth arall am ei gyllideb flynyddol a'i bolisiau sefydliadol** ar wefan y Cynulliad..

Mae'r Comisiwn yn fodlon darparu rhagor o wybodaeth os hoffech ddysgu rhagor am ein gwaith:








- Gallwch gysylltu â ni yma: **www.cynulliad.cymru/cysylltu**
- Mae canllawiau **ynghylch cael gafael ar wybodaeth ar gael** ar wefan y Cynulliad.

Mesurau Perfformiad Corfforaethol - Cyflawniad yn erbyn Nodau Strategol















Crynodeb o'r wybodaeth fanylach sy'n dilyn am y dangosyddion perfformiad allweddol (gweler y grwpiau o ddangosyddion perfformiad allweddol cyfatebol)

Rhif Grŵp KPI	Darparu Cymorth Seneddol o'r Radd Flaenaf	Ebrill - Rhagfyr 2013	Ebrill - Rhagfyr 2014
1	Bodddhad Aelodau	 oren	 gwyrdd
2	Prydlondeb a Chyflenwi Gwasanaethau	 gwyrdd	 gwyrdd
3	Datblygiad Proffesiynol	 gwyrdd	 gwyrdd
4	Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol	 gwyrdd	 gwyrdd

Sylwadau - manylion ar dudalennau 6 – 9
Dim newid i'r sgorau ar gyfer cyfarfodydd llawn a chyfarfodydd pwyllgor; cynyddodd y sgôr ar gyfer gweithio yn eu dewis iaith o 6.2 yn 2013 i 8.9 yn 2014.
Perfformiad cyson uchel o ran prydlondeb. Aeth perfformiad dau o'r dangosyddion ychydig yn is na 95% ar gyfer cyhoeddi papurau pwyllgor a thrafodion pwyllgor, lle y mae targedau mwy heriol wedi'u pennu yn ddiweddar.
Dysgwyr Cymraeg ar gynnydd, ynghyd â'r nifer o Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch datblygiad proffesiynol parhaus.
Ymgorffori ymhellach y cynnydd tuag at "bwyllgorau o'r radd flaenaf". Technoleg wedi'i huwchraddio yn gwella mynediad at wybodaeth a thrafodion. Arbedion a sicrhawyd drwy ddefnyddio adnoddau cyfieithu gwell.

Rhif Grŵp KPI	Ymgysylltu â Phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru	Ebrill - Rhagfyr 2013	Ebrill - Rhagfyr 2014
5	Bodddhad Aelodau	-	 oren
6	Ymgysylltu â'r Cynulliad	 gwyrdd	 gwyrdd
7	Proffil Allanol y Cynulliad	 gwyrdd	 gwyrdd
8	Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (gwella ymgysylltu)	 gwyrdd	 gwyrdd

Sylwadau - manylion ar dudalennau 9 – 12
Sgôr o 6.7. Mae hwn yn fesur newydd ac nid oes cymaryddion o'r arolygon blaenorol.
Parhaodd niferoedd ymwelwyr i godi ac mae lefelau bodddhad ymwelwyr wedi gwella (sgorau da/bodddhaol - 90%).
Cafwyd cynnydd sylweddol o ran ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig ar Twitter, YouTube a Senedd.tv. Gostyngiad yn nifer yr ysgolion newydd sy'n ymgysylltu a thraffig i Gofnod y Trafodion.
Lefel dda o ymgysylltiad â gwaith y Cynulliad, yn enwedig o ran pobl ifanc a gwaith y pwyllgorau. Cynnydd sylweddol o ran ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Rhif Grŵp KPI	Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth	Ebrill - Rhagfyr 2013	Ebrill - Rhagfyr 2014	Sylwadau - manylion ar dudalennau 13 – 16
9	Bodddhad Aelodau	 gwyrdd	 gwyrdd	Sgorau wedi gwella ym mhob categori gyda chynnydd sylweddol yn y sgorau TGCh.
10	Perfformiad Cyllidebol	 gwyrdd	 gwyrdd	Sefyllfa gref o ran % y tanwariant a ragwelwyd a gwariant yn erbyn proffil. Cyrhaeddwyd y targed Gwerth am Arian blyneddol yn ystod mis Rhagfyr.
11	Staff	 oren	 gwyrdd	Mae cyfraddau salwch absenoldeb wedi gwella ymhellach ac yn dal yn is na'r targed a chyfartaledd y sector. Gostyngiad yn nifer yr adolygiadau o berfformiad a gofnodwyd erbyn y terfyn amser.
12	Gwasanaeth Cwsmeriaid TGCh	 oren	 oren	Perfformiad cyffredinol targedau'r cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer ymdrin ag achosion llawer yn is na'r cyfartaledd yn ystod deufis olaf y cyfnod adrodd. Mae'r sgôr bodddhad cwsmeriaid yn uchel o hyd.
13	Llywodraethu	 gwyrdd	 oren	Mae taliadau'n parhau o fewn yr amser targed. Gwelliant o ran % y ceisiadau rhyddid gwybodaeth sy'n cael eu hateb ar amser (92% yn erbyn targed o 100%).
14	Cynaliadwyedd	 oren	 oren	Mae allyriadau ynni wedi parhau i ostwng, ond maent yn debygol o fethu'r targed uchelgeisiol o ostyngiad o 40%. Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed gwastraff i safleoedd tirlenwi.
